# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 10/11/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

### Jac y Neidiwr

***9. Brian Gibbons:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i reoli Jac y Neidiwr yng Nghymru. OAQ(3)1203(RAF)* ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai .***

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Oherwydd ei effaith ar fioamrywiaeth gynhenid y DU, rhestrir Jac y Neidiwr ar atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hyn yn golygu mai perchnogion tir sy'n gyfrifol am ei atal rhag lledaenu ar eu tir. Yn ogystal, os mai corff cyhoeddus sy'n berchen ar y tir, mae arno ddyletswydd statudol i ystyried bioamrywiaeth wrth wneud pob penderfyniad.

### Diwydiant Amaethyddol Cymru

**10. Nick Ramsay:** *Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i wella cystadleurwydd diwydiant amaethyddiaeth Cymru. OAQ(3)1191(RAF)*

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Mae 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad—Creu Dyfodol Cadarn' yn amlinellu cyfeiriad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r diwydiannau ffermio, bwyd a chynhyrchu ar y tir, gan gynnal lles cymunedau gwledig a'r amgylchedd hyd at 2020.

### Busnesau Gwledig

***11. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn sy'n cael ei wneud i helpu arallgyfeirio ymysg busnesau gwledig. OAQ(3)1206(RAF)*

**Elin Jones:**Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu ystod o gymorth i helpu busnesau gwledig i arallgyfeirio, ac yn fy mhortffolio i mae hyn yn digwydd drwy'r cynllun datblygu gwledig.

### Blaenoriaethau

***12. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei blaenoriaethau ar gyfer cymunedau gwledig Cymru dros weddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1193(RAF)*

**Elin Jones:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad yn parhau i fod fel y maent wedi'u nodi yn 'Cymru'n Un'. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu, o fewn fy mhortffolio, drwy gynllun datblygu gwledig Cymru.

### Labeli Bwyd

***13. David Lloyd:*** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd yng nghyswllt labeli bwyd. OAQ(3)1204(RAF) [W]

**Elin Jones:** Ewrop sy'n penderfynu ar reolau labelu bwyd. Mae rheoliad Ewropeaidd newydd ar wybodaeth am fwyd yn cael ei ddatblygu i hyrwyddo labeli bwyd clir a chyson i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau priodol a deallus.

### Blaenoriaethau

***14. Peter Black:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y Trydydd Cynulliad. OAQ(3)1188(RAF)*

**Elin Jones:** Yr wyf yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion a nodir yng nghytundeb 'Cymru'n Un' a gweithio i sicrhau diwydiannau ffermio, coedwigaeth, bwyd a physgodfeydd cynaliadwy er lles Cymru a chymunedau gwledig.

### Diwydiant Bwyd Cymru

***15. Gareth Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu diwydiant bwyd Cymru. OAQ(3)1187(RAF)*

**Elin Jones:** Mae'r gwaith o ddatblygu'r diwydiant bwyd yng Nghymru yn flaenoriaeth. Bydd strategaeth bwyd newydd Cymru yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y 10 mlynedd nesaf drwy gyflawni'r amcanion craidd a chynllun gweithredu yn seiliedig ar ei phum prif sbardun.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

### Blaenoriaethau Tai

***9. Irene James:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau tai ar gyfer gweddill Tymor y Cynulliad. OAQ(3)1448(ESH)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies):** Mae ein strategaeth dai, 'Gwella Bywydau a Chymunedau: Cartrefi yng Nghymru', yn disgrifio'r heriau yr ydym yn eu hwynebu a'r camau y byddwn yn eu cymryd yn y dyfodol. Ymhlith fy mlaenoriaethau mae gweithredu'r Mesur tai arfaethedig newydd, datblygu ymddiriedolaeth buddsoddi mewn tai yng Nghymru, gweithredu argymhellion adolygiad annibynnol o'r rhaglen Cefnogi Pobl a mynd i'r afael ag effaith y toriadau yn y gyllideb.

### Microgynhyrchu Ynni yng Nghymru

***10. David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau sy'n cael eu cymryd i hybu microgynhyrchu ynni yng Nghymru. OAQ(3)1440(ESH)*

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yr ydym yn defnyddio dull cefnogol ac arloesol o hyrwyddo microgynhyrchu yng Nghymru drwy raglenni megis Arbed a'r system cynllunio defnydd tir. Dim ond yr wythnos diwethaf y lansiais rwydwaith microgen Cymru—rhan o raglen gymorth ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy

yng Nghymru.

### Strategaeth Wastraff

***11. Jeff Cuthbert:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth wastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru. OAQ(3)1435(ESH)*

**Jane Davidson:** Fy uchelgais yw i Gymru fod yn ailgylchu o leiaf 70 y cant o'i gwastraff erbyn 2025 ac i ni fod yn wlad ddiwastraff erbyn 2050. Mae ein strategaeth wastraff newydd, 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', yn amlinellu yn union beth mae'n rhaid i ni ei wneud i gyflawni hyn.

### Gwella'r Amgylchedd yng Nghymru

***12. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i wella'r amgylchedd yng Nghymru. OAQ(3)1431(ESH)*

**Jane Davidson:** Lansiais ymgynghoriad ar 'Cymru Fyw—fframwaith newydd ar gyfer ein hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd' ar 15 Medi. Mae'r ymgynghoriad yn nodi golwg sy'n sylfaenol newydd ar y ffordd yr ydym yn rheoli ein hamgylchedd. Cyhoeddais fy strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd y mis diwethaf hefyd.

### Datganoli Pwerau ar Brosiectau Ynni MawrDevolving

***13. Nerys Evans***: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynglyn â datganoli pwerau ar brosiectau ynni mawr. OAQ(3)1450(ESH)*

**Jane Davidson:** Yr wyf wrthi'n trafod y mater hwn, yn ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, Chris Huhne, a Gweinidogion eraill Llywodraeth y DU, gan dynnu sylw at gefnogaeth datblygwyr ynni adnewyddadwy a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynyddu'r cydsyniadau ynni a ddatganolir ar lefel weithredol yng Nghymru o 50MW i 100MW.

### Blaenoriaethau ar gyfer Rhanbarth Canol De Cymru

***14. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru dros y misoedd nesaf. OAQ(3)1463(ESH)*

**Jane Davidson:** Yr wyf yn parhau i fod wedi ymrwymo i gyflawni fy ymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' ledled rhanbarth Canol De Cymru. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'r camau a nodir yn fy strategaeth newydd ar y newid yn yr hinsawdd a'r Mesur arfaethedig ar wastraff a gafodd ei basio yr wythnos diwethaf.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)1443(ESH), yn ôl.*